Gofynnwch am/*Ask for* **Deborah Weston**
Ein Cyf/*Our Ref* **DW/YBD**
Eich Cyf/*Your Ref*
Ffôn/*Tel* **01633 210631**
Rhif Uniongyrchol/*Direct* **01633 210631**
DX
E-bost/*E-mail* school.reorg@newport.gov.uk

**Gwasanaeth Addysg**
**Gwasanaeth Addysg**

Newport City Council
Cyngor Dinas Casnewydd

Canolfan Ddinesig/Civic Centre
Casnewydd/Newport
De Cymru/South Wales
NP20 4UR

Annwyl Randdeiliad

**Cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Bryn Derw gan 28 o leoedd disgyblion o fis Ebrill 2022**

Mae'r ymgynghoriad statudol llawn bellach wedi'i gwblhau gan Gyngor Dinas Casnewydd ar gynnig i gynyddu capasiti Ysgol Bryn Derw â 28 o leoedd o fis Ebrill 2022 ymlaen.

Rhoddodd Aelod Cabinet dros Addysg a Sgiliau Cyngor Dinas Casnewydd ystyriaeth i'r holl farnau a fynegwyd ac ymatebion a ddaeth i law yn ystod y broses ymgynghori statudol ac mae wedi penderfynu bwrw ymlaen â'r cynnig. Felly, cyhoeddwyd Hysbysiad Statudol ar 15 Hydref 2021 am gyfnod o 28 diwrnod a ddaeth i ben ar 11 Tachwedd 2021.

Ni ddaeth unrhyw wrthwynebiad i law yn ystod y cam statudol hwn ac felly gwnaethpwyd y penderfyniad terfynol gan Aelod Cabinet dros Addysg a Sgiliau Cyngor Dinas Casnewydd. Mae'n bleser gennyf gadarnhau y caiff y cynnig ei weithredu yn unol â'r amlinelliad a nodwyd yn yr ymgynghoriad a'r hysbysiad statudol o fis Ebrill 2022.

Mae rhagor o wybodaeth ar wefan y Cyngor yn https://www.newport.gov.uk/cy/Schools-Education/School-reorganisation/Ysgol-Bryn-Derw-expansion-Kimberley-building.aspx

Yn gywir

**Sarah Morgan**
**Prif Swyddog Addysg**
**Prif Swyddog Addysg**